

**AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL
(Cyfarfod Arbennig)**

11 Medi 2019

Yn bresennol: Y Cynghorydd Mrs D Clements (Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)
Mr A Archer, y Cynghorydd K Doolin, y Cynghorydd M Evans, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, y Cynghorydd M James, Mr GA Jones, y Cynghorydd P Kidney, y Cynghorydd PJ Morgan, y Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer, y Cynghorydd A Wilcox, y Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 11.15am - 11.25am)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol gan y Cynghorydd P Baker, y Cynghorydd P Harries a Mrs J James.

2. Datgelu buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant

3. Penodi Swyddog Monitro

Soniwyd bod y Pwyllgor Personél wedi cyfarfod ar 4 Medi 2019 ac wedi cyfweld dau ymgeisydd ar gyfer y swydd a grybwyllwyd uchod. Penderfyniad unfrydol y Pwyllgor oedd gwneud argymhelliad i'r Awdurdod i benodi Mr Michael Kent yn Swyddog Monitro, yn amodol ar eirda boddhaol. Ers cyfarfod y Pwyllgor, mae'r geirda wedi dod i law.

Roedd yr Aelodau am ddiolch i'r Dirprwy Swyddog Monitro am ei chymorth ers i'r Swyddog Monitro blaenorol ymddiswyddo ym mis Mai 2019.

PENDERFYNWYD penodi Mr Michael Kent yn Swyddog Monitro.

